Wales Office
Swyddfa Cymru

**Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru – 11 Mehefin 2014**

Roedd Araith y Frenhines ar 4 Mehefin 2014 yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn y sesiwn hon, sef pedwaredd sesiwn a sesiwn derfynol y Senedd hon, rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith a gychwynnwyd yn 2010 i gyflwyno cynllun hirdymor i greu economi gryfach a chymdeithas decach.

Tair prif flaenoriaeth Llywodraeth y DU ar gyfer rhaglen ddeddfwriaethol y bedwaredd sesiwn yw twf economaidd a lleihau'r diffyg ariannol, diwygio cymdeithasol a chyfiawnder ac atal troseddu. Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol hon yn cynnwys 11 Bil a thri Bil drafft. Mae hefyd yn cynnwys pum Bil a gyflwynwyd yn y sesiwn ddiwethaf, gan gynnwys **Bil Cymru** a fydd yn datganoli pwerau newydd yn ymwneud â threth a buddsoddi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru.

Rydym ni fel Llywodraeth wedi dangos nad oes gennym ofn gwneud penderfyniadau anodd er mwyn lleihau'r diffyg a sicrhau twf yr economi, ac yn y sesiwn hon byddwn yn dal ati i fynd i'r afael â'r gwaddol economaidd a adawyd i ni drwy sicrhau twf cynaliadwy sy'n cael ei yrru gan y sector preifat.

Bydd ein **Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth** yn rhoi'r gallu i fusnesau bach gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i dyfu, gan wneud y DU yn wlad fwy deniadol i gychwyn a datblygu busnes. Bydd y **Bil Seilwaith** yn sicrhau buddsoddiad hirdymor mewn seilwaith ac yn gwella cystadleurwydd economaidd.

Byddwn hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau diwygiadau cymdeithasol pwysig. Bydd y **Bil Treth Pensiynau** yn rhoi'r rhyddid i bobl sydd wedi cynilo drwy gydol eu hoes i ddewis sut i ddefnyddio'u harian yn eu hymddeoliad, a bydd y **Bil Pensiynau Preifat** yn rhoi cyfle i arloesi yn y farchnad pensiynau preifat. Bydd y **Bil Taliadau Gofal Plant** yn helpu teuluoedd sy'n gweithio gyda'u costau gofal plant. Bydd y **Bil Lluoedd Arfog (Cwynion am y Gwasanaeth a Chymorth Ariannol)**, drwy greu ombwdsmon, yn gwella'r system gwyno yn y Lluoedd Arfog. Mae'r **Bil Gwroldeb, Cyfrifoldeb a Gweithredu Cymdeithasol** yn sicrhau y bydd achosion lle mae unigolyn yn gweithredu mewn ffordd ddewr neu gyfrifol, neu er budd pobl eraill, yn cael eu hystyried gan y llysoedd.

Rydym hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r rheini sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi o flaen eu gwell. Bydd y **Bil Caethwasiaeth Modern** yn cryfhau'r pwerau sy'n bodoli'n barod i atal caethwasiaeth modern a masnachu pobl, ac yn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl sydd wedi dioddef troseddau o'r fath. Bydd y **Bil Troseddau Difrifol** yn cryfhau pwerau'r heddlu i atal troseddau difrifol a chyfundrefnol, ac yn rhoi mwy o bwerau i fynd i'r afael ag esgeuluso plant.

Bydd pob un o'r Biliau hyn yn esgor ar fanteision uniongyrchol i Gymru. Ar gychwyn y Senedd hon ym mis Mai 2010, fe wnaethom ni addo y byddem yn llywodraethu er budd y wlad, ac ers hynny rydym wedi cyflwyno deddfwriaethau i sicrhau manteision ledled y Deyrnas Unedig.

Yn ystod y sesiwn seneddol ddiweddaraf hon mae ein penderfyniad i sicrhau diwygiadau economaidd a chymdeithasol gwirioneddol a pharhaol wedi bod yr un

Wales Office
Swyddfa Cymru

mor gryf. Mae cynnwys y rhaglen ddeddfwriaethol hon yn cadarnhau ein hymrwymiad i weithio i wella bywydau pobl yng Nghymru ac ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig drwy ddarparu'r diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau cymdeithas decach, a pharhau i ddarparu ar gyfer economi gryfach a mwy llewyrchus.